| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Hydref 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Jason McLellan** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (y Pwyllgor) ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2015/16.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I hysbysu'r holl Aelodau am waith y Pwyllgor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae'n statudol ofynnol i'r Cyngor, dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011, gael Pwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor yw pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer y diben hwn. Rôl statudol y Pwyllgor Archwilio yw adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod, llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod, adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod, a gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod. Y Pwyllgor hefyd yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw'r Cyfansoddiad dan arolwg.

4.2 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn darparu bod aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys chwe Aelod etholedig ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Nid oes gofyniad statudol i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys. Mae gofyniad statudol i gael o leiaf un aelod lleyg annibynnol o'r Pwyllgor a'r aelod lleyg presennol yw Mr Paul Witham.

4.3 Bydd Swyddog s151 y Cyngor, y Swyddog Monitro a Phennaeth Archwilio Mewnol neu eu cynrychiolwyr yn mynychu pob cyfarfod y Pwyllgor. Yn ogystal, bydd swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru yn mynychu pob cyfarfod.

4.4 Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi paratoi adroddiad o weithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd ynghlwm fel Atodiad 1.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae gwaith y Pwyllgor o ran craffu rheolaethau materion ariannol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn cynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho'r adroddiad Asesiad o Effaith ar Les o'r wefan a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

7.1 Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw gynnig ond, yn hytrach, mae'n adroddiad ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. Felly, nid oes angen unrhyw asesiad effaith.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r Cadeirydd wedi darparu adroddiad ar lafar i'r Pwyllgor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

9.1 Mae'r Pwyllgor yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae craffu effeithiol o brosesau ariannol, systemau a thrafodion sylweddol yn elfen hanfodol o reolaeth fewnol ac yn darparu lefel o sicrwydd i'r cyngor ehangach a rhanddeiliaid eraill.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risg o beidio â chael Llywodraethu Corfforaethol neu Bwyllgor Archwilio effeithiol yw nad oes trosolwg o lywodraethu corfforaethol y Cyngor, sydd yn rhan allweddol o berfformiad da. Gall llywodraethu corfforaethol gwan gyfrannu at fethiannau o ran darparu gwasanaethau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad o ganlyniad i'r adroddiad hwn.